S4C Rhyngwladol International

# Y Gronfa Cynnwys Masnachol
# The Commercial Content Fund

# TROSOLWG O'R GRONFA

## *Mae'n gyfnod cyffrous*


i fod yn gweithio yn y sector creadigol yng Nghymru. Mae straeon lleol gwych, wedi'u hadrodd yn dda, yn mynd y tu hwnt i dir ac iaith er mwyn i gynulleidfaoedd byd-eang eu mwynhau. Mae'r drws ar agor i fynd â'r cynnwys Cymraeg gorau allan i'r byd.

Crëwyd y Gronfa Cynnwys Masnachol gan S4C Rhyngwladol i lwyr wireddu cyfleoedd masnachol newydd i gynnwys a chynhyrchwyr S4C.

Bydd y Gronfa Cynnwys Masnachol yn gweithio gyda chwmnïau yng Nghymru a chynhyrchwyr Cymraeg i ddatblygu a chynhyrchu cynnwys uchelgeisiol, sy'n apelio'n fasnachol, sydd wedi ei wneud yng Nghymru ac sy'n cael ei werthu'n rhyngwladol ac mewn marchnadoedd newydd.

Byddwn yn cefnogi cynnwys nodedig sydd wedi ei Sgriptio neu sydd heb ei Sgriptio sydd â photensial i gael effaith yn y farchnad – o ran creu enw da neu'n ariannol. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn eiddo deallusol sy'n apelio'n fasnachol – fel llyfrau, gemau, animeiddio a thechnoleg sy'n seiliedig ar gynnwys. Trwy gefnogi'r prosiectau hyn, gallwn arddangos diwylliant a chreadigrwydd Cymru i'r byd a chyfrannu at dwf set sgiliau a llwyddiant masnachol y sector Cymraeg.

# DATBLYGU POTENSIAL


DIM
SIANEL
DIM
TRWYDDED
SIANEL
GYMRAEG
Y SŴN

# ***Beth yw'r*** *Gronfa Cynnwys Masnachol?*

Mae Cronfa Cynnwys Masnachol S4C yn gronfa fuddsoddi newydd sy'n cael ei sefydlu gan S4C Rhyngwladol Cyf, isgwmni sy'n eiddo llwyr i S4C, sef darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Bydd y Gronfa'n gwneud buddsoddiadau masnachol yng nghynnwys S4C lle mae angen cyllid y tu hwnt i ffioedd trwyddedau rhaglenni safonol S4C a lle mae cyfle i greu elw ar fuddsoddiad.

Yn ogystal â chreu elw ariannol i S4C, nod y Gronfa yw cefnogi cwmnïau cynhyrchu i greu cyfleoedd masnachol, datblygu sgiliau masnachol ac ymestyn y cyrhaeddiad a'r gydnabyddiaeth ar gyfer cynnwys S4C.

# ***PAM MAE'R*** *GRONFA WEDI CAEL EI CHREU?*

Mae S4C Rhyngwladol yn cydnabod bod cyfleoedd yn y farchnad i gynnwys Cymraeg a deunydd da sy'n seiliedig ar gynnwys a grëwyd yng Nghymru.

Gwelwyd hyn gyda gwerthiant diweddar ***Dal Y Mellt*** i Netflix, a dosbarthiad byd-eang cydgynhyrchiad S4C / Channel 4 ***Y Golau / Light in the Hall*** a ***Gwledd / The Feast***. Mae cynulleidfaoedd byd-eang wedi dod yn gyfarwydd ag isdeitlau, yn bennaf o ganlyniad i wasanaethau ffrydio a llwyddiant dramâu nad ydynt yn y Saesneg yn yr Oscars.

Mae'r Gronfa Cynnwys Masnachol wedi'i lansio i weithio gyda chynhyrchwyr i gael mynediad at y cyfleoedd hyn trwy ddatblygu, cydgynhyrchu ac ariannu cynnwys sydd ag apêl fasnachol glir gyda gwerth enw da yn ystyriaeth ychwanegol.

Drwy annog bargeinio arloesol a darparu mynediad at: cyllid; adnoddau; arbenigedd; partneriaid byd-eang a chyllid strategol, credwn y gall fod manteision ar y cyd a thymor hir i gynhyrchwyr, S4C a'r sector creadigol yng Nghymru.

# ***BETH YW'R*** *GOFYNION I FOD YN GYMWYS?*

- Unrhyw gynhyrchiad gan S4C sydd â photensial cryf i gynhyrchu elw masnachol ar fuddsoddiad, a lle mae'r raddfa greadigol a'r uchelgais yn golygu bod y gost ar hyn o bryd y tu hwnt i ffioedd trwyddedau safonol S4C.

- Unrhyw brosiect sy'n cael ei ddatblygu sydd wedi'i fwriadu ar gyfer S4C / cynulleidfa Gymraeg sydd â photensial ar gyfer llwyddiant masnachol yn ogystal â lefel o hynodrwydd a fydd yn denu partneriaid cydweithredol. Dylai'r prosiect ddod drwy gwmni cynhyrchu neu gynhyrchydd yng Nghymru sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cynnwys Cymraeg.

- Gall cynyrchiadau fod yn unrhyw genre,ond bydd blaenoriaethau buddsoddi yn cyd-fynd â blaenoriaethau comisiynu S4C a'r genres hynny sydd fwyaf tebygol o gyflawni nodau ariannol a strategol y gronfa.

- Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n dod â chynllun masnacheiddio clir a rhagolygon gwerthu sy'n dangos elw masnachol, ond byddwn yn gweithio gyda chwmnïau i gyflawni hyn.

PROSIECTAU CYDWEITHREDOL


SAM TÂN

# TWF TALENT

## ***BETH YW*** *AMCANION STRATEGOL Y GRONFA?*

- Darparu elw ariannol ar fuddsoddiad.
- Gweithredu fel catalydd ar gyfer twf yn economi greadigol Cymru drwy alluogi cyfleoedd masnachol newydd i gael eu gwireddu a sgiliau i'w datblygu.
- Cynyddu effaith, cyrhaeddiad a chydnabyddiaeth S4C a chynnwys S4C.
- Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn prosiectau a fydd yn denu partneriaid cydgyllido a chydgynhyrchu a phrosiectau creadigol sy'n cofleidio menter, graddfa neu unigrywedd byd-eang.

## ***FAINT O*** *GYLLID SYDD AR GAEL?*

£1 miliwn y flwyddyn ar gyfer datblygu, cynhyrchu a benthyciadau.

Bydd pob buddsoddiad yn cael ei ystyried yn unigol ac yn cael ei roi gan ystyried maint y cyfle masnachol, yn ogystal â nodau anariannol eraill megis effaith greadigol neu'r rhan a chwaraeir gan y dalent a enwir ar / oddi ar y sgrin.

# ***PA FATH*** *O GYNNWYS FYDD Y GRONFA CYNNWYS MASNACHOL YN BUDDSODDI YNDDO?*

Mae'r Gronfa yn disgwyl gweld cyfle arbennig mewn cynnwys wedi ei sgriptio, cynnwys premiwm heb ei sgriptio, fformatau heb eu sgriptio a chynnwys plant cyn ysgol. Byddem yn disgwyl i'n buddsoddiad gyfrannu at gyllid cyffredinol cynhyrchiad a gwella effaith greadigol a masnachol.

Er mai buddsoddiad mewn comisiynau gan S4C fydd canolbwynt y Gronfa, bydd y Gronfa hefyd yn ystyried buddsoddi mewn prosiectau datblygu sy'n cael eu datblygu'n bennaf ar gyfer S4C.

Yn ogystal, bydd y Gronfa hefyd yn cynnig benthyciadau llif arian cynhyrchu, er enghraifft i lif ariannu credydau treth neu grantiau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ffynhonnell amgen o gyllid llif arian lle mae'r farchnad ar hyn o bryd yn tanwasanaethu angen cynhyrchwyr S4C.


SUPERTED

# GWERTH BUDDSODDIAD

## ***AR GYFER BETH*** *Y GELLIR DEFNYDDIO BUDDSODDIADAU'R GRONFA?*

**Datblygu** (£1k i £50k y prosiect)

- Buddsoddi mewn deunyddiau datblygu: e.e. triniaethau; tapiau blasu; peilotiaid; sgriptiau.
- Buddsoddi mewn hawliau: e.e. opsiynau o ran llyfrau.
- Buddsoddi mewn denu talent ar / oddi ar y sgrin
- Buddsoddi mewn masnacheiddio cynnwys S4C a brandiau neu gymeriadau sy'n deillio o gynnwys S4C. (Er enghraifft: nwyddau, apiau, cyhoeddiadau, gemau, digwyddiadau, marchnata a phromos).

**Cynhyrchu** (£50k - £300k y prosiect. Buddsoddiad Cynhyrchu heb fod yn fwy na 15% o gyfanswm y gyllideb)

- Buddsoddi mewn costau cynhyrchu sy'n ychwanegu gwerth ar sgrin
- Buddsoddi mewn prosiectau a gydgynhyrchwyd sy'n gofyn am sawl cyllidwr. Gall y rhain olygu bod fersiynau di-Gymraeg neu amlieithog yn cael eu cynhyrchu gyda chyfranogiad darlledwyr eraill.
- Buddsoddi sy'n galluogi cynhyrchwyr i sicrhau buddsoddiadau 'arian cyfatebol'

**Cyllid** (£100k + y prosiect )

- Benthyciadau llif arian yn erbyn credyd treth teledu neu ffilm y DU, grantiau neu gyllid cyfatebol.

# ***PA WYBODAETH FYDD*** *EI HANGEN ARNAF AR GYFER Y CAIS?*

(gweler y ffurflen gais ar gyfer y gofynion llawn):

**Datblygu:**

- ‘Mynegiant o ddiddordeb’ tîm comisiynu S4C a / neu ariannwr arall (mae e-bost yn iawn)
- Contractau allweddol sydd ar waith neu’n cael eu cynnig (e.e. cytundebau hawliau sy’n dangos bod gennych fynediad)
- Cyllideb Datblygu

**Cynhyrchu:**

- Synopsis yn amlinellu’r syniad a’r cyfle masnachol
- Llythyr o fwriad comisiynu S4C (ar dariff safonol)
- Contractau perthnasol ar waith: arianwyr eraill yn y cynllun cyllido y cytunwyd arno; dosbarthwyr; prif dalent ar ac oddi ar y sgrin wedi eu cynnwys.
- Lle bo hynny’n berthnasol: Sgript. Dec. Trelar neu beilot; Tâp cast / perthynas; Prawf o hawliau eiddo deallusol neu hawliau sylfaenol
- Cyllideb S4C (a Chyllideb cydgynhyrchu rhyngwladol, lle bo hynny’n berthnasol)

**Ar gyfer Benthyciadau Cyllid / Llif Arian:**

- Contractau allweddol ar waith: cyllidwyr yn y cynllun cyllido y cytunwyd arno; dosbarthwyr; prif dalent ar ac oddi ar y sgrin.
- Llythyr cyfrifydd yn cadarnhau cymhwysedd ar gyfer sicrhau’r credyd treth / grant ac ymarferoldeb hynny; yr amserlen ar gyfer derbyn arian a gwerth disgwyliedig y credyd treth / grant

Lle bo’n briodol, bydd angen sicrwydd ar fuddsoddiadau, er enghraifft, yswiriant yn enwi S4C Rhyngwladol fel buddiolwr.


un
bore
mercher

## ***BETH YW'R*** *CATEGORÏAU SY'N CAEL BLAENORIAETH?*

- **Drama**
- **Ffeithiol Arbenigol**
- **Dogfen Premiwm neu gyfres nodedig**
- **Fformatau Adloniant Ffeithiol Nodedig**
- **Plant (o dan 6 oed)**
- **Animeiddiad**

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau penodol cyfredol, cysylltwch â Phennaeth y Gronfa claire.urquhart@s4c.cymru

## ***BETH YW*** *MODEL BUSNES Y GRONFA CYNNWYS MASNACHOL?*

Bydd y Gronfa Cynnwys Masnachol yn buddsoddi mewn cynnwys ar gyfer S4C sydd â chyfle masnachol amlwg.

Fel arfer bydd y Gronfa Cynnwys Masnachol yn adennill ei buddsoddiad o refeniw dosbarthu a masnachol ac yn cymryd cyfran yn elw net parhaus y cynhyrchiad. Mewn rhai achosion, bydd premiwm yn cael ei gynnwys ar ad-daliad.

Mae refeniw'r dyfodol yn fwyaf tebygol o gael ei gynhyrchu o werthiant a dosbarthiad rhaglenni, ond byddai cyfleoedd masnachol eraill, e.e. trwyddedu, hefyd yn cael eu hystyried. Bydd buddsoddiad mewn deunydd datblygu yn cael ei adennill o'r gyllideb gynhyrchu ar ddechrau'r cyfnod ffilmio.

CREU CYNNWYS

## ***SUT FYDD Y*** *GRONFA CYNNWYS MASNACHOL YN GWEDDU I STRWYTHUR SEFYDLIAD S4C?*

Bydd y Gronfa Cynnwys Masnachol yn gweithredu o fewn S4C Rhyngwladol Cyf., cwmni masnachol ar wahân sy'n gweithredu o fewn grŵp S4C. Mae wedi gwahanu'n llwyr o weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus S4C yn ariannol ac o ran creu penderfyniadau. Goruchwylir S4C Rhyngwladol gan Brif Swyddog Ariannol S4C ac mae'n adrodd yn rheolaidd i Fwrdd Masnachol S4C.

Bydd y Gronfa'n cydweithio gyda chyd-weithwyr ar draws S4C, gan gynnwys ffurfio partneriaeth gref gyda thimau comisiynu er mwyn adnabod yr angen a'r cyfle ar gyfer buddsoddiad gan y Gronfa.

## ***AR BA BWYNT*** *FYDD Y GRONFA CYNNWYS MASNACHOL YN BUDDSODDI MEWN CYNHYRCHIAD?*

Ar gyfer buddsoddi mewn cynyrchiadau, y bwriad yw mai buddsoddiadau'r Gronfa yw'r cam olaf mewn cynlluniau cyllido cynhyrchu nid y cyntaf. Bydd hyn yn caniatáu i gwmnïau cynhyrchu ddangos cyfle masnachol a llwybrau i'r farchnad trwy ymlyniad partneriaid cyllido a dosbarthu eraill. Bydd hefyd yn sicrhau defnydd effeithiol o fuddsoddiadau'r Gronfa, gan sbarduno golau gwyrdd cyflym a chreu sicrwydd o ran defnyddio cronfeydd buddsoddi.

Gall y Gronfa ystyried buddsoddi cynharach mewn cynhyrchiad lle gall weld cyfle masnachol amlwg a sylweddol, a fyddai'n cael ei wella gan ymrwymiad cynnar y Gronfa.

PARTNERIAID


Y GOLAU

# ***SUT BYDD Y*** *GRONFA CYNNWYS MASNACHOL YN GWEITHIO GYDA CHWMNÏAU CYNHYRCHU?*

Er y bydd cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn debygol, trwy eu perchnogaeth ar hawliau, o fod yn gyfrifol am fasnacheiddio cynnwys, nod y Gronfa Cynnwys Masnachol yw bod yn bartner cydweithredol sy'n cefnogi cynhyrchwyr wrth sicrhau llwyddiant masnachol ar gyfer cynnwys S4C.

Bydd y Gronfa ar gael fel ffynhonnell o gyngor i gwmnïau cynhyrchu, gan gydnabod mai profiad cyfyngedig sydd gan rai o gyflenwyr S4C yn y gallu i fasnacheiddio cynnwys. Bydd y Gronfa hefyd yn defnyddio cynghorwyr allanol, e.e. gyda gwybodaeth sy'n benodol i genre, i graffu ar gynigion buddsoddi ar ran y Gronfa ac i ddarparu mewnwelediad a gwybodaeth arbenigol i'r Gronfa a'i phartneriaid cynhyrchu.

# ***BETH YW*** *MANTEISION BUDDSODDIAD Y GRONFA CYNNWYS MASNACHOL?*

Mae'r Gronfa Cynnwys Masnachol yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr gael mynediad at ffynhonnell ariannu newydd, gyda buddsoddiad â'r potensial i ychwanegu effaith fasnachol a chreadigol at gynyrchiadau.

Mae'r Gronfa hefyd yn ymroddedig i gynnwys a gomisiynwyd gan S4C neu a ddatblygwyd ar ei gyfer, ac mae wedi ymrwymo i gefnogi'r cyfle masnachol byd-eang ar gyfer cynnwys Cymraeg.

Lle nad oes gan gynhyrchwyr berthynas sy'n bodoli eisoes, gall y Gronfa helpu i ddod o hyd i ddosbarthwr addas a phartneriaid cydgynhyrchu.

# POTENSIAL CREADIGOL

## ***SUT ALL FY*** *NGHWMNI WNEUD CAIS AM FUDDSODDIAD GAN Y GRONFA CYNNWYS MASNACHOL?*

Cysylltwch â Phennaeth y Gronfa Cynnwys Masnachol os ydych yn ystyried gwneud cais am fuddsoddiad o'r gronfa claire.urquhart@s4c.cymru

Fel arall, gallwch lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb, sydd ar gael ar dudalen Comisiynu S4C. Rydym yn cynghori hyn cyn i chi wneud cais ffurfiol.

## ***PA FEINI PRAWF*** *Y MAE'R GRONFA CYNNWYS MASNACHOL YN EU HYSTYRIED WRTH WNEUD BUDDSODDIADAU?*

Mae'r gronfa'n asesu'r elw masnachol posibl ar ei fuddsoddiad yn seiliedig ar refeniw disgwyliedig yn y dyfodol. Yn ogystal ag elw masnachol, bydd y gronfa hefyd yn ystyried sut mae buddsoddiadau'n diwallu eu blaenoriaethau strategol ehangach o ran sicrhau effaith greadigol a datblygu sgiliau a phrofiad gyda'r sector cynhyrchu yng Nghymru.

Mae yna ofyniad bod 75% o'r gwariant cynhyrchu a / neu 75% o'r tîm cynhyrchu yng Nghymru.


DAL Y
MELLT